# Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 9 Hydref 2003 |
| **Amser:** | 09:00 |
| **Lleoliad:** | Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| **Teitl:** | PARATOADAU'R TRYSORLYS AR GYFER YR EWRO |
| | Arolwg o Fusnesau'r DU, Tachwedd 2002 - Esboniad o Dabl B1 |

## Y Pwnc Dan Sylw

1. Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, holodd yr aelodau am dabl B1 yn nogfen y Trysorlys **"HM Treasury Euro Preparations a Survey of UK Businesses, November 2002."** Mae copi o'r tabl yn **Atodiad 2.** Yn ôl Tabl B1, roedd nifer y busnesau bach a chanolig yng Nghymru sy'n masnachu ag Ewrop wedi gostwng. Gofynnodd yr Aelodau am fwy o wybodaeth am y ffigurau.

2. Rydym bellach wedi cysylltu â'r Trysorlys am yr arolwg ac mae'u sylwadau wedi'u cynnwys yn y nodiadau cefndir isod.

3. Y rheswm am y gostyngiad yw bod maint y samplau a'r sectorau diwydiannol sy'n cael eu samplu yng Nghymru yn wahanol i rai'r arolygon cynt. Roedd yn arolwg o fusnesau'r DU yn gyfan ac o ran y canlyniad, nid yw'r gwahaniaethau rhanbarthol yn cael eu hystyried yn arwyddocaol.

### Argymhelliad

4. Gwahoddir Aelodau'r Pwyllgor i nodi cynnwys y papur esboniadol hwn.

### Y Cefndir

### Y Pumed Arolwg o Baratoadau Busnesau ar gyfer yr Ewro: manylion y tablau rhanbarthol

5. Comisiynodd y Trysorlys yr arolwg diwethaf ym mis Tachwedd 2002 i weld faint o fusnesau yn y DU

oedd wedi ystyried goblygiadau ymarferol a strategol mabwysiadu'r ewro yn ardal yr ewro. Roedd arolygon wedi'u cynnal hefyd ym misoedd Mai a Hydref 1998, Ebrill 1999, Ebrill 2000 a Thachwedd 2001. Mae'r holl arolygon hyn i'w gweld ar wefan y Trysorlys ar yr ewro (www.euro.gov.uk)

6. Mae’r arolwg diweddaraf yn dangos bod 22% o bob BBaCh (Busnesau Bach a Chanolig) wedi ystyried goblygiadau strategol ac ymarferol mabwysiadu'r ewro yn ardal yr ewro.

7. Mae 34% o'r BBaCh (Atodiad 2 tabl 4) sydd â chysylltiadau masnachol â'r UE (311,000 o fusnesau) wedi ystyried goblygiadau strategol ac ymarferol mabwysiadu'r ewro yn ardal yr ewro. Mae hynny'n gynnydd o 51,000 ers yr arolwg diwethaf. (Mae cysylltiadau masnachol yn cael eu diffinio yn Atodiad 1, Tabl 2. Gwelwch bod hwn yn ddiffiniad eang iawn.)

8. Mae’r arolwg hwn ac arolygon cynt wedi cynorthwyo Llywodraeth y DU i lunio strategaeth gyfathrebu i helpu busnesau ystyried effeithiau ymarferol a strategol yr ewro yn ardal yr ewro ar eu busnesau.

9. Mae Tabl B1 yn awgrymu bod cyfran y busnesau Prydeinig yng Nghymru sydd â chysylltiadau masnachol â'r UE wedi cwympo i 38% yn yr arolwg diwethaf. Roedd y ffigwr yn 47% yn yr arolwg cynt. (Mae cysylltiadau masnachol yn cael eu diffinio yn Atodiad 1, Tabl 2.)

10. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod cysylltiadau masnachol fusnesau o Gymru â'r UE wedi crebachu. Mae'r arolygon wedi'u seilio ar 1,500 o fusnesau a holwyd trwy gyfrwng cyfweliadau ym Mhrydain. Mae nifer y cyfweliadau ar lefel ranbarthol (holwyd 107 o fusnesau yn yr arolwg diweddaraf yng Nghymru) yn rhy fach i allu cymharu un arolwg â'r llall. Ceir nodyn ar ddull yr Arolwg yn **Atodiad 1**.

11. Mae'r ymchwil yn cael ei chynnal er mwyn sicrhau y ceir sampl cynrychioliadol o Brydain yn ei chyfanrwydd i helpu Llywodraeth y DU â'i strategaeth gyfathrebu. Rhaid bod yn ofalus wrth ddadansoddi'r tablau yn ôl rhanbarth a/neu sector fusnes oherwydd, yn y rhan fwyaf o achosion, bod y samplau a holwyd mor fach.

12. Y rheswm tebygol felly am y cwymp yn ffigurau Cymru yw bod mwy o sectorau busnes wedi cael eu holi yn yr arolwg diwethaf, a bod y sectorau hynny yn llai tebygol o fasnachu â'r UE neu’n llai tebygol o fod wedi paratoi ar gyfer yr ewro. Cafodd yr arolwg ei gynnal gan Taylor Nelson Sofres, cwmni arolygon annibynnol ac nid ydynt yn rhoi manylion y busnesau penodol y gwnaethant eu holi, fesul rhanbarth.

13. Er gwaethaf y ffaith nad yw’r tabl yn gynrychioliadol, mae’r Trysorlys o’r farn ei fod yn ddefnyddiol. Mae’r ffigurau’n helpu i lywio strategaeth gyfathrebu Llywodraeth y DU trwy ddangos y gwahaniaethau rhwng rhanbarthau, cyhyd ag yr ystyrir maint y sampl wrth wneud hynny.

14. Mae ymchwil a wnaed gan MasnachCymru Rhyngwladol yn awgrymu nad yw’r gostyngiad a

ddangosir yn nhabl y Trysorlys yn gynrychioliadol, o ran y masnachu sy’n digwydd ar lawr gwlad. Yn ôl ffigurau diweddaraf Tollau Tramor a Chartref (ctr 1/2003), mae nifer y cwmnïau sy’n masnachu gyda’r UE wedi aros ar lefel gyson, ac nid ydynt yn dangos unrhyw ostyngiad yn lefel y gweithgarwch. Yn 2002, roedd 35% o gyfanswm y cwmnïau oedd yn allforio o Gymru, a gofnodwyd at ddibenion Tollau Tramor a Chartref, yn allforio i’r UE. Dyma’r un lefel â lefel 2001. Mae’r ffigurau hyn hefyd yn dangos bod Ewrop yn parhau i fod yn farchnad bwysig i Gymru, gan gyfri am rhwng 65-70% o gyfanswm allforion Cymru (68% o allforion Cymru yn ctr 1/2003, sef cynnydd o 6.2% ar ctr 1/2002).

15. Mae ffigurau Tollau Tramor a Chartref wedi’u seilio ar y gwir allforion yn hytrach nag ar ddiffiniad y Trysorlys o gysylltiadau masnachol busnesau bach a chanolig. Gan hynny, ni ellir eu cymharu’n uniongyrchol â ffigurau’r Trysorlys. Oherwydd bod ffigurau Tollau Tramor a Chartref wedi’u seilio ar wir allforion ac nid canlyniadau sampl bychan, maent yn ddangosydd gwell o lefel y gweithgarwch masnachu sydd rhwng cwmnïau o Gymru a gweddill Ewrop.

## Cydymffurfiaeth

16. Nid oes unrhyw faterion cydymffurfiaeth yn gysylltiedig â’r ddogfen hon.

## Goblygiadau Ariannol

17. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn deillio o’r materion yn y papur hwn.

## Cyswllt yn yr Is-Adran

18. Yr Is-Adran Materion Ewropeaidd ac Allanol, Pennaeth y Gangen, Philip Bird, est. 3514.

**Rhodri Morgan AC**

**Prif Weinidog Cymru**

# Atodiad 1. Dull yr Arolwg

1. Mae chwe arolwg wedi'u cynnal i edrych ar baratoadau BBaCh ym Mhrydain ar gyfer yr ewro, sef:

Tabl 1

| | | |
|---|---|---|
| Cam 1 | 20 Ebrill - 13 Mai 1998 | 1,300 cyfweliad |
| Cam 2 | 15 – 30 Hydref 1998 | 1,700 cyfweliad |
| Cam 3 | 19 Ebrill - 7 Mai 1999 | 1,700 cyfweliad |
| Cam 4 | 3 Ebrill - 17 Ebrill 2000 | 1,800 cyfweliad |
| Cam 5 | 26 Tachwedd - 14 Rhagfyr 2001 | 1,502 cyfweliad |
| Cam 6 | 25 Tachwedd - 13 Rhagfyr 2002 | 1,434 cyfweliad |

2. Mae holiadur yr arolwg yn cael ei newid o dro i dro i wneud y cwestiynau'n fwy perthnasol wrth i'r ewro ennill ei blwyf yn ardal yr ewro. Mae rhai camau o'r arolwg wedi cynnwys cwestiynau sy’n asesu effeithiolrwydd yr ymgyrch gyhoeddusrwydd.

3. Yn y pedwar cam cyntaf, comisiynodd COI Communications, ar ran y Trysorlys, Taylor Nelson Sofres Cyf (TNS) i ychwanegu holiadur at ei arolwg omnibws o fusnesau Prydain. Arolwg ffôn rheolaidd yw hwn sy'n holi rhyw 1,000 o uwch-reolwyr BBaCh yng Nghymru, Lloegr a'r Alban (busnesau â rhwng 1 a 49 o weithwyr). Er mwyn gallu cynrychioli marchnad y busnesau bach a chanolig yn llawn, defnyddiwyd yr holiadur i holi sampl ychwanegol o ryw 300 BBaCh gyda 50-250 o weithwyr.

4. Cafodd camau pump a chwech, ym misoedd Tachwedd 2001 a Thachwedd 2002, eu cynnal yn yr un ffordd ond fel arolygon untro nad oedd yn rhan o omnibws.

5. Ym mhob cam, cafodd y BBaCh eu dewis ar hap, ond defnyddiwyd cynllun i sicrhau bod y sampl yn cynrychioli nifer y busnesau sydd o fewn sector diwydiannol o fewn band maint. Fel rheol, os oes gan fusnes lai na 50 o weithwyr, yna y Perchennog / Rheolwr / Rheolwr Gyfarwyddwr sy'n cael ei holi. Os oes gan y busnes fwy na 50 o weithwyr, mae'r cyfrifoldeb am y materion yn debygol o fod wedi'u dirprwyo i unigolyn penodol, felly byddwn yn fwy tebygol o holi'r Cyfarwyddwr Cyllid.

6. Mae'r data yn cael ei gymhwyso fel ei fod yn cynrychioli pob BBaCh ag 1-125 o weithwyr, er mwyn ystyried unrhyw anghydbwyseddau eraill yn y sampl. Mae data'r arolwg felly yn cynrychioli barn rhyw 1.6 miliwn o fusnesau ym Mhrydain.

7. Gwnaeth rhyw 32% ymateb i Arolwg Tachwedd 2002. Mae hyn yn debyg i ganlyniadau arolygon eraill ac arolygon ystadegol dros y ffôn ymhlith uwch-reolwyr yn gyffredinol.

8. Ystyrir bod gan gwmni gysylltiadau masnachol â'r UE os ydynt yn rhoi ateb cadarnhaol i unrhyw un o'r chwe chwestiwn yn y tabl isod:

Tabl 2

| **I ba raddau y mae gennych gysylltiadau masnachol â gwledydd yr UE** |
|---|
| |
| 1. Ydych chi'n gwerthu nwyddau neu wasanaethau i wledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd (UE)? |
| 2. Ydych chi'n prynu nwyddau neu wasanaethau o wledydd eraill yr UE? |
| 3. A oes gennych chi unrhyw ffatrioedd, siopau neu swyddfeydd yng ngwledydd eraill yr UE? |
| 4. Ydych chi'n perthyn i grwp gydag is-gwmnïau neu riant-gwmni mewn man arall yn yr UE? |
| 5. A ydy'ch cwmni chi yn cyflenwi cwmnïau eraill sy'n gweithredu yng ngwledydd eraill yr UE neu sy'n cyflenwi nwyddau neu wasanaethau yno? |
| 6. A ydych chi mewn cystadleuaeth â chwmnïau o wledydd eraill yr UE? |

**Atodiad 2.**

# TABL 4. % Y BBACH SY'N DWEUD EU BOD WEDI PARATOI STRATEGAETH GYFFREDINOL AR GYFER YR EWRO, NEU BOD UN GANDDYNT YN BAROD

| | Pob BBaCh | | | BBaCh sydd â chysylltiadau â'r UE | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ebrill 2000** | **Tach 2001** | **Tach 2002** | **Ebrill 2000** | **Tach 2001** | **Tach 2002** |

| | % | % | % | % | % | % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Paratoi | **13** | **13** | **14** | **22** | **21** | **24** |
| Strategaeth gyffredinol | **12** | **15** | **17** | **21** | **25** | **26** |
| Paratoi strategaeth | **17** | **19** | **22** | **28** | **30** | **34** |

## Tabl b.1: FAINT O GYSYLLTIADAU MASNACHOL SYDD â'R UE, FESUL RHANBARTH

| | **Ebrill 1999** | **Ebrill 2000** | **Tachwedd 2001** | **Tachwedd 2002** |
|---|---|---|---|---|
| Rhanbarth Swyddfa'r Llywodraeth | % sydd ag unrhyw gysylltiad â'r UE | % sydd ag unrhyw gysylltiad â'r UE | % sydd ag unrhyw gysylltiad â'r UE | % sydd ag unrhyw gysylltiad â'r UE |
| Cyfanswm Prydain Fawr* | 39% | 53% | 54% | 53% |
| Yr Alban | 38% | 48% | 54% | 54% |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 34% | 46% | 34% | 55% |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 39% | 34% | 48% | 58% |
| Swydd Efrog a Glannau Humber | 30% | 58% | 59% | 45% |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 34% | 49% | 54% | 56% |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 38% | 50% | 61% | 55% |
| Cymru | 25% | 42% | 47% | 38% |
| Dwyrain Lloegr | 45% | 61% | 60% | 56% |
| De-ddwyrain Lloegr | 42% | 63% | 58% | 58% |
| Llundain | 44% | 71% | 66% | 55% |
| De-orllewin Lloegr | 36% | 50% | 47% | 46% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd Iwerddon | 60% | 42% | 59% | 60% |

*Sylwch nad yw'r data ar gyfer Gogledd Iwerddon wedi'i gynnwys yn ffigurau'r cyfanswm: mae'r rhes hon yn cyfeirio at Brydain Fawr yn unig.